# CYNNIG TRAFFIG

**GORCHYMYN CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU STOPIO, AROS, LLWYTHO A MANNAU PARCIO AR Y STRYD) (CYDGRYNHOI) 2023 (DIWYGIO RHIF 13) 2024**

Mae Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, wrth arfer ei bwerau dan Adrannau 1 a 2 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, Rhan 6 Deddf Rheoli Traffig 2004 fel y'i diwygiwyd, Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013, Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dinas a Sir Caerdydd) 2010 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig gwneud Gorchymyn a fydd yn addasu'r gorchymyn a enwir uchod ac yn benodol teilsen map cyfeirnodau AH23 ac AH24 (a atodir i'r Gorchymyn drafft) a fydd yn eich atal rhag aros ar unrhyw adeg yn:

I. Albert Street ar y ddwy ochr o'r gyffordd â Stryd Wellington am 7 metr i'r de-ddwyrain.
II. Stryd Wellington, ar ochr y de-ddwyrain o bwynt 7 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd ag Albert Street i bwynt 7 metr i'r de-orllewin o'r un gyffordd.

Caniateir eithriadau ar gyfer mynd i mewn ac allan o gerbyd, llwytho a dadlwytho nwyddau, ar gyfer gwasanaethau hanfodol ac angladdau ac am uchafswm o dair awr ar gyfer cerbydau sy'n arddangos "Bathodyn Anabl" ac at ddefnydd cludo pobl anabl.

Mae manylion y cynnig a'r cynllun sy'n dangos lleoliad a maint y cyfyngiadau arfaethedig ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/gorchmyniontraffig. Yn ogystal, gallwch gael copïau drwy anfon cais ar e-bost i gwrthwynebiadaugorchymyntraffigffyrdd@caerdydd.gov.uk neu drwy anfon cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod.

Rhaid anfon gwrthwynebiadau a sylwadau eraill sy'n ymwneud â'r gorchymyn yn ysgrifenedig ar neu cyn 7 Chwefror 2024 neu dros e-bost i gwrthwynebiadaugorchymyntraffigffyrdd@caerdydd.gov.uk. Yn achos gwrthwynebiad, rhaid cynnwys datganiad yn nodi'r rhesymau dros wrthwynebu. Gellir datgelu gohebiaeth fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Gellir cael gwared â'r Hysbysiad hwn ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben. Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg a byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu â chi yn yr iaith o'ch dewis, boed hynny'n Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog, cyhyd â'ch bod yn dweud wrthym pa un sydd orau gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.

Dyddiad: 17 Ionawr 2024
Gwasanaethau Cyfreithiol, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW

DAB1853

# CYNNIG TRAFFIG

**GORCHYMYN CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU STOPIO, AROS, LLWYTHO A MANNAU PARCIO AR Y STRYD) (CYDGRYNHOI) 2023 (DIWYGIO RHIF 13) 2024**

Mae Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, wrth arfer ei bwerau dan adrannau 1, 2, 4, 32, 35, 45, 46, 49 a 53 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd) ("Deddf 1984"), Rhan 6 Deddf Rheoli Traffig 2004, y Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dinas a Sir Caerdydd) 2010, Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013, a'r holl bwerau galluogi eraill, ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu De Cymru yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn cynnig gwneud Gorchymyn a fydd yn **sefydlu Man Parcio i Bobl Anabl (i'w ddefnyddio gan unrhyw Ddeiliaid Bathodyn Person Anabl) ar y darn o ffordd y cyfeirir ato yn yr Atodlen isod (fel y dangosir ar Deilsen Map Cyfeirnodau AH23 ac AH24** a atodir i'r Gorchymyn drafft).

Caniateir eithriadau am y rhesymau canlynol:

a. Mynd i mewn neu allan o gerbyd
b. Gwasanaethau brys
c. Gwasanaethau hanfodol

Mae copi o'r gorchymyn drafft a'r cynllun yn dangos lleoliad a natur y cyfyngiadau ar gael a gallwch gael copi drwy anfon cais dros e-bost i gwrthwynebiadaugorchymyntraffigffyrdd@caerdydd.gov.uk neu drwy wneud cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod. Mae manylion llawn y gorchymyn hefyd ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/gorchmyniontraffig.

Rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau a sylwadau eraill sy'n ymwneud â'r gorchymyn yn ysgrifenedig ar neu cyn 7 Chwefror 2024 neu drwy e-bost i gwrthwynebiadaugorchymyntraffigffyrdd@caerdydd.gov.uk a rhaid nodi eich rhesymau dros wrthwynebu. Gellir datgelu gohebiaeth fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Gellir cael gwared â'r Hysbysiad hwn ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben. Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg a byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu â chi yn yr iaith o'ch dewis, boed hynny'n Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog, cyhyd â'ch bod yn dweud wrthym pa un sydd orau gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.

## ATODLEN

**ALBERT STREET, CAERDYDD**
Ar ochr y gogledd-ddwyrain o bwynt 7 metr i'r de-ddwyrain o'r gyffordd â Stryd Wellington am 6.6 metr i'r de-ddwyrain.

Dyddiad: 17 Ionawr 2024
Gwasanaethau Cyfreithiol, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW

DAB1853





GORCHYMYN (CYDGRYNHOI)
(GWAHARDD A CHYFYNGU STOPIO, AROS, LLWYTHO A MANNAU PARCIO AR Y STRYD)
CYNGOR A DINAS CAERDYDD 2023
SYLWER: GWELER ALLWEDD YR ATODLEN MAP AR GYFER Y CYFYNGIADAU I'W DANGOS

Atgynhyrchwyd y map hwn o ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi © Hawlfraint y Goron.
Mae unrhyw atgynhyrchu nas awdurdodir yn torri Hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil.
Sir Caerdydd
Rhif Trwydded 100023376 2023

AG23
AH22 AH24
AI23

N W E S

| | |
|---|---|
| GRADDFA | 1 : 1250 @ A3 |
| DYDDIAD | |
| MAP | CYFEIRNOD TEILSENH23 |
| ADOLYGIAD | DRAFFT |




CARDIFF
CAERDYDD

GORCHYMYN (CYDGRYNHOI)
(GWAHARDD A CHYFYNGU STOPIO, AROS, LLWYTHO A MANNAU PARCIO AR Y STRYD)
CYNGOR A DINAS CAERDYDD 2023

SYLWER: GWELER ALLWEDD YR ATODLEN MAP AR GYFER Y CYFYNGIADAU I'W DANGOS

Atgynhyrchwyd y map hwn o ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi © Hawlfraint y Goron.
Mae unrhyw atgynhyrchu nas awdurdodir yn torri Hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil.
Sir Caerdydd
Rhif Trwydded 100023376 2023

AG24
AH23 AH25
AI24

N
W E
S

| | |
|---|---|
| GRADDFA | 1 : 1250 @ A3 |
| DYDDIAD | |
| MAP | CYFEIRNOD TEILSEN AH24 |
| ADOLYGIAD | DRAFFT |

CARDIFF
CAERDYDD

# ALLWEDD MAP

DYDDIAD: 03/03/2023

## Mathau o Orchymyn

- Man Parcio i Fysus
- Blwch Safle Bws
- Man Parcio Llogi Beiciau
- Deiliaid bathodynnau anabl yn unig
- 11 : Deiliaid bathodynnau anabl yn unig
- Gwefru Cerbydau Trydan Yn Unig
- Llwytho i Gerbydau Nwyddau Yn unig
- Ardal Llwytho i Gerbydau Nwyddau Yn unig
- Aros Cyfyngedig
- Llwytho yn unig
- Dim Llwytho ar Amseroedd Penodol
- Dim stopio ar droedffordd
- Dim Aros / Dim Llwytho ar Adegau Penodol
- Dim Aros ar unrhyw Adeg
- Dim Aros ar unrhyw Adeg / Dim Llwytho ar Amseroedd Penodol
- Dim Aros ar unrhyw Adeg / Dim Llwytho Ar Unrhyw Adeg
- Dim Aros ar Amseroedd Penodol
- NW1 : Dim Aros Llun-Sadwrn 0800-1830
- Talu ac Aros
- Llinellau igam-ogam croesfan i gerddwyr
- Parth Cerddwyr
- Gwahardd Stopio
- Gwahardd Aros / Stopio ar Leiniau Ymyl
- Deiliaid trwydded breswyl yn unig
- Tîm Ardal Parcio â Thrwydded
- Parth Parcio Cyfyngedig
- Ysgol Cadwch yn Glir
- Defnydd a Rennir (Deiliaid Bathodyn Anabl a Cherbydau Nwyddau)
- Defnydd a Rennir (Llwytho Cerbydau Nwyddau ac Aros Cyfyngedig)
- Defnydd a Rennir (Deiliaid Trwyddedau ac Aros Cyfyngedig)
- Defnydd a Rennir (Deiliaid Trwyddedau a Pharcio â Thâl)
- Defnydd a Rennir (Parcio i Breswylwyr ac Aros Cyfyngedig)
- Defnydd a Rennir (Llwytho Tacsis a Cherbydau Nwyddau)
- Lle Parcio Arbennig
- Deiliaid Trwyddedau Arbennig Yn Unig
- Safle Tacsis